Graffig-Dai Owen: www.dai-owen.co.uk

# heddwch

cnd cymru
yr ymgyrch
dros ddiarfogi niwclear

gaeaf 2012-13
rhif 58



# ARFAU NIWCLEAR

## DDIM YNG NGHYMRU ...DDIM YN UNMAN!

## heddwch

**yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru (CND Cymru)**

**golygydd:**
Jill Gough
**cyfiethydd:**
Sian Edwards
sian@derwen.demon.co.uk
**cynhyrchu a phostio:**
Redkite Print
07810 566 919
redkiteprint@thefreeflyer.com

*Nid yw cynnwys **heddwch** o anghenraid yn adlewyrchu barn neu bolisïau **CND Cymru.** Rydym yn croesawu dadl a thrafodaeth. Anfonwch unrhyw sylwadau neu gyfraniadau at y golygydd.*


## cnd cymru

**Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.**

## cysylltiadau


**cadeirydd:**
Stephen Thomas
02920 666 645
stephenv.thomas@btinternet.com
**is-gaderyddion:**
Brian Jones
01792 830 330
swanseacnd@btinternet.com
Duncan Rees
07774 268 371
duncan.rees@co-operative.coop
George Crabb
01446 774 452
Ray Davies
02920 889 514
John Cox
01495 773 495
drjohncox@aol.com
**trysorydd, aelodaeth ac aelodau:**
CND Cymru
9 Primrose Hill, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth SY23 3SE
michael.freeman9@btinternet.com
**masnachu:**
Kate and Del Rhys
coney@gn.apc.uk
**ysgrifenydd cenedlaethol:**
Jill Gough,
CND Cymru,
Llys Gwyn, Glynarthen,
Llandysul, SA44 6PS
01239 851 188
heddwch@cndcymru.org
www.cndcymru.org


# Dydd y Ddraig yng



*Nid person mo'r wladwriaeth ond pob un ohonom,*
*A rhaid i ni oll ddewis sut mae pethau'n mynd.*
*A ddewiswn ni fywyd?*
*A ddewiswn ni angau?*
*A gydgynllwyniwn ni mewn llofruddiaeth?*

### Roedd y siaradwyr yn cynnwys:

**Plaid Genedlaethol yr Alban:** Jean Urquhart ASA Yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd
**Llafur:** Julie Morgan AC, Yr Athro Mark Drakeford AC, Paul Flynn MP, Christine Chapman AC, Mick Antoniw AC
**Plaid Cymru:** Simon Thomas AC
**Democratiaid Rhyddfrydol:** Kirsty Williams AC, Eluned Parrott AC
**Y Blaid Werdd:** Pippa Bartolotti
Robin Gwyndaf, Cymdeithas y Cymod
Nikki Clark, Stop Hinkley
Mererid Hopwood
Sian Wiblin, Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS)
**Derbyniwyd negeseuon** gan lu o unigolion a grwpiau o bob rhan o Gymru, yn cynnwys neges gan Archesgob Cymru, Barry Morgan, Bruce Kent, a'r Dafydd Iwan.
**Diolch o galon i bawb a ddaeth yno**, y rhai a siaradodd ac a ganodd, a anfonodd negeseuon, ac a wnaeth y diwrnod yn un mor llwyddiannus.

Wrth i 2012 dynnu i ben, a'r hil ddynol yn dwysáu ei chyrch i ddinistrio'i hun a phob math o fywyd ar y ddaear, weithiau ni wn i a oes mwy y gallwn ei wneud nag ymgynnull yn gyhoeddus a chanu.

Felly, ar yr 16eg o Hydref, ar risiau'r Senedd yng Nghaerdydd, daeth pobl yno a chanu, daeth eraill yno a llefaru, ac actiodd criw o glowniaid a thair draig goch anferthol ddinistr llong danfor niwclear.

Y neges oedd 'Llongau Tanfor Trident, Arfau Niwclear: Ddim yng Nghymru, Ddim yn Lloegr – Ddim yn Unman!' Roeddem oll yn gwrthod yr awgrym gan Brif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, y byddai 'croeso cynnes' i Trident yng Nghymru pe câi ei daflu allan o Alban annibynnol, gan ddatgan yn bendant nad oes unrhyw gefnogaeth wleidyddol i 'Faslane 2' yn Aberdaugleddau.

Siaradodd gwleidyddion o bum plaid, a chyflwynwyd negeseuon anferth yn galw ar y Cynulliad i beidio â chefnogi lleoli arfau niwclear yng Nghymru i'r Prif Weinidog. Roedd y 200 a gymerodd ran yn dod o fannau mor bell i ffwrdd â Chaergybi, Ceredigion a Sir Benfro, heb sôn am ddirprwyaeth o Gyngor Heddwch Henffordd.

Noddwyd a threfnwyd y digwyddiad gan CND Cymru, Trident Ploughshares a Gweithredu Trefyclo dros Heddwch a Chyfiawnder, ac fe'i cyflwynwyd yn athrylithgar gan y bardd Mererid Hopwood.

Canodd aelodau o Gôr Gobaith (o Aberystwyth a Llambed) ddarnau o'r oratorio, 'Trident: a British War Crime' gan Camilla Cancantata (gweler y dyfyniad uchod). Fel un o'r côr gwreiddiol a ganodd y darn hwn fel fflach-dorf yn Neuadd y Senedd, Caeredin yn 2004, fe'm cynhyrfwyd unwaith eto gan ei harddwch a'i nerth.

Canodd Côr Cochion (Caerdydd) yr *Internationale* yn Gymraeg, ac arweiniodd cyfarwyddydd cerdd Côr Gobaith, Susie Ennals, bawb mewn dawns gylchol, gerddorol, anferth, hardd i gloi.

*Dr. Vole*





# Nghaerdydd
## Pwy ddwedodd beth...



**Jean Urquhart ASA Ucheldiroedd ac Ynysoedd (SNP):**
'Rwyf yn llwyr gefnogi pobl yng Nghymru, a'r Aelodau Cynulliad hynny a roes o'u hamser i ddatgan eu gwrthwynebiad i Trident, gwrthwynebiad i'w lleoli yng Nghymru ond, yn bwysicaf oll, gwrthwynebiad yn gyffredinol i Trident ac arfau niwclear eraill. Bydd y posibilrwydd o wario biliynau o bunnau gan lywodraeth San Steffan yn faen tramgwydd pellach i Genhedloedd y Deyrnas Unedig; yn yr hirlwm presennol, mae'n tanlinellu ymhellach wallgofrwydd polisi niwclear trawiad-cyntaf. Mae mwyfwy o bobl yn dweud nid yn unig NA i Trident, ond na i NATO fel sefydliad sy'n barod i'w ddefnyddio.'

**Christine Chapman AC (Llafur):**
'Mae amrywiaeth y gefnogaeth a gynrychiolir yma yn ysgubol, ac rwyf wrth fy modd i allu ymuno â chydweithwyr o bob rhan o'r sbectrwm gwleidyddol yng Nghymru i wneud y consensws hwn yn glir fel grisial.
Dydy lleoli arfau niwclear yng Nghymru ddim yn fater plaid-wleidyddol – yn hytrach, mae'n un moesol gan nad oes unrhyw gyfiawnhad dros fod ag arfau heb ddim pwrpas heblaw llofruddio miliynau o bobl. Mae hwn yn fater economaidd hefyd – pan fo'r gwasanaethau cymdeithasol y mae pob dinesydd Cymreig yn dibynnu arnyn nhw'n wynebu pwysau affwysol oherwydd toriadau cyllido, does bosib nad ffolineb llwyr yw gwastraffu biliynau ar olynydd i fraw-atalydd o'r oes o'r blaen nad oes lle iddo yn y byd modern.
Mae'n dda iawn gennyf i'r Prif Weinidog ddatgan yn y Senedd ym mis Gorffennaf na fu dim trafodaethau ac, yn wir, nad oes dim bwriad o ddod â Trident i Gymru.
Mae heddiw yn gyfle i wneud y pwyntiau hyn. Mae hefyd yn gyfle i anfon neges gref at lywodraeth y DU y byddwn yn ei hailadrodd cyhyd ag y bydd angen – mae Cymru yn gwrthwynebu arfau niwclear.'

**Simon Thomas AM (Plaid Cymru):**
'. . . y wir ddadl y dylai llywodraeth Cymru fod yn ei hargymell parthed Trident yw nid ymgais noeth, wedi annibyniaeth i'r Alban, i ddod â Trident i Gymru, ond ymgais soffistigedig seiliedig ar bolisi am swyddi y gallem eu creu yng Nghymru pe câi Trident ei ddileu a phe baem yn rhoi'r gorau i'n hunandwyll parthed mawredd y Deyrnas Unedig, cael gwared o arfau niwclear, a chanolbwyntio ar ddefnyddio'r arian hwnnw i fod â pholisi amddiffyn priodol a pholisi o greu swyddi yng Nghymru.'

**Pippa Bartolotti (Y Blaid Werdd):**
'Dydy arfau dinistr torfol ddim yn perthyn yng Nghymru, y wlad heddychlon hon. Mae'r Prif Weinidog wedi tanseilio hyder yn niwydiannau presennol Aberdaugleddau ar yr adeg y mae arnom eu hangen fwyaf. Mae'r Rhyfel Oer ar ben.'

**Paul Flynn AS**
'Ni all yr un o gefnogwyr Trident awgrymu unrhyw sefyllfa lle byddai'r DU yn defnyddio arfau niwclear yn annibynnol. I rai, carthen gysur ydyw: i eraill, symbol o wrywdod.'


**Robin Gwyndaf Is-lywydd Cymdeithas y Cymod**
'Mae Trident; mae pob arf niwclear; mae pob awyren ddibeilot yn Aberporth – adar angau; pob bom; pob gwn – mae'r cyfan yn symbol o ryfel a thrais, dioddefaint a phoen; yn symbol o'r barbareiddiwch a chreulondeb dynol sy'n flotyn du yn hanes datblygiad y ddynoliaeth.
Y mae Llywodraeth Cymru yn dweud nad oes a wnelo nhw ddim byd â hyn oll, "Llywodraeth Prydain sy'n gyfrifol am faterion amddiffyn." Ond rydym ni yma heddiw i ddweud wrth bob un aelod o'r Cynulliad: "Oes, oes, oes, mae gennych chi gyfrifoldeb."
Rydym ni yma heddiw i ddweud bod gan bob un ohonom ran i'w chwarae i sicrhau y bydd Cymru'n arwain y ffordd yn Ewrop ac yn y byd o ran chwifio baner cyfiawnder a heddwch.'

**Archesgob Cymru, Barry Morgan:**
'Yn ein henw ni, ac heb lawer o ymgynghori, penderfynodd y llywodraeth adnewyddu system arfau sydd i'w gresynu'n foesol. Yr hyn a ddymuna unrhyw berson yn ei iawn bwyll yw byd cyfiawn a heddychlon ac, yn y gwaith o adeiladu'r fath fyd, gallai ac fe ddylai Prydain fod yn chwarae rhan flaenllaw, gan elwa ar gredoau moesol, Cristnogol a chrefyddol eraill i ddadlau dros derfyn ar feddiannu, yn ogystal â bygwth defnyddio, arfau niwclear.'

**Dafydd Iwan:**
'Mae gennym gyfle yng Nghymru i ddangos i'r byd nad ydym, ar unrhyw gyfrif, yn dymuno bod yn rhan o'r ras arfau, na chwarae unrhyw ran yn y busnes o adeiladu mwy o arfau dinistr torfol. Trwy ddweud yn groyw nad oes croeso i arfau niwclear ar dir Cymru, galwn ar holl wledydd y byd, ac ar lywodraeth Llundain, i roi terfyn ar y gwallgofrwydd hyn ar unwaith.'

**Bruce Kent:**
'Mae pobl Cymru yn llawn mor ddeallus a moesol â phobl yr Alban.
Mae mwyafrif anferth yn y ddwy wlad yn dweud "Na" yn bendant i Trident a phob arf niwclear. Mae arfau niwclear yn anfoesol, yn ddrud, yn berygl beunyddiol, ac yn sicrhau anniogelwch, nid diogelwch. Bydd NA ar y cyd gan Gymru a'r Alban yn golygu diwedd ar hanner canrif o wallgofrwydd Prydeinig peryglus a byd mwy diogel. Mae'n bryd cael gwared o'r cwbl; ym mhobman.'



# Arfau Niwclear - Nid Mater Plaid-wleidyddol

**Mae angen i'n Cynulliad Cenedlaethol ailgyhoeddi 'Cymru Ddi-niwclear'. Mae John Cox yn eich annog i siarad â'ch Aelodau Cynulliad ynglyn â hynny.**

Tra bod asgell Doriaidd y llywodraeth Brydeinig yn San Steffan am fwrw ymlaen â chynlluniau i adeiladu olynydd i Trident am gost o £100 biliwn ('i wneud beth?' – pwy a wyr), tyfu y mae'r gwrthwynebiad yn yr Alban a Chymru.

Yn yr Alban, mae pob plaid sy'n cefnogi pleidlais 'Ie' dros annibyniaeth yn gytûn na ddylid lleoli arfau niwclear ar dir neu ar ddyfroedd tiriogaethol yr Alban. Felly hefyd y rhan fwyaf sy'n bwriadu pleidleisio 'Na'. Yn y sefyllfa hon, mae'n ddigon posibl y gallai'r llywodraeth Brydeinig, sydd eisoes dan bwysau i gael gwared o Trident oherwydd y gost, benderfynu fod pris gwleidyddol Trident yn rhy uchel a dileu Trident er mwyn 'achub yr Undeb'. Rydym yn byw mewn cyfnod diddorol.

I ninnau yng Nghymru, mae rhai sylwadau annoeth ynglyn â'r posibilrwydd o adleoli Trident wedi ailfywiogi'n gwrthwynebiad i arfau niwclear. Dangosodd trwch y gefnogaeth i wrthdystiad Hydref 16eg y tu allan i'r Senedd bod y gwrthwynebiad i Trident yn cynnwys aelodau o'n holl bleidiau gwleidyddol, mudiadau crefyddol a chymunedol ac undebau llafur. Sut y medrwn ni adeiladu ar sail hyn?

Ar sail sawl sgwrs a gefais cyn ac yn ystod y gwrthdystiad ac ers hynny, mae'n glir bod mwyafrif Aelodau'r Cynulliad yn bersonol yn gwrthwynebu bod ag unrhyw arfau niwclear wedi eu lleoli yng Nghymru. Ein gorchwyl ni yw darbwyllo'r ACau i fynegi eu barn bresennol yn gyhoeddus. Ein her yw llunio geiriad amhleidiol ar gyfer 'Mynegiant o Farn' gan y Cynulliad Cenedlaethol sy'n galluogi aelodau o bob plaid wleidyddol i'w noddi.

Ni ddylai hon fod yn dasg amhosibl. Bydd ymgyrchwyr hir-dymor yn cofio i holl awdurdodau lleol Cymru gytuno, ym 1982, ar gynigion di-niwclear a chyhoeddi (y dull agosaf a oedd gennym bryd hynny at fynegi barn fel gwlad) datganiad y Gymru Ddi-niwclear ar y 23ain o Chwefror.

Nawr bod gennym Gynulliad Cenedlaethol, byddai'n briodol i'n cynrychiolwyr etholedig gytuno ar ddatganiad cenedlaethol wedi ei ddiweddaru. Bydd yn rhaid goresgyn y ddadl led-annilys nad yw 'amddiffyn yn fater datganoledig' – ond nid yw hynny wedi atal y Cynulliad rhag mynegi barn ar nifer fawr o faterion annatganoledig.

Rhwystr mwy real a phwysicach yw'r ffaith fod arfau niwclear wedi mynd yn fath o ffwtbol gwleidyddol.

Dyma lle mae'n bwysig cysylltu'n bersonol â'ch Aelodau Cynulliad. Fel y dywedais uchod, arweiniodd fy sgyrsiau personol i mi gredu y byddai'r rhan fwyaf o ACau yn cefnogi datganiad Cymru Ddi-niwclear newydd pe baent yn siwr na fyddai'r Aelodau Cynulliad di-niwclear am sgorio pwyntiau gwleidyddol pe bai (dyweder) arweinyddiaeth eu plaid yn dal i fod o blaid Trident. Y flaenoriaeth i bawb yw cynorthwyo'r rheini sy'n ceisio darbwyllo eu plaid i wrthwynebu Trident – nid gorfoleddu yn yr anawsterau y gallant fod yn eu hwynebu.

Mae lle ac amser i wleidyddiaeth plaid, a llu o faterion a ddylai fod yn destun dadl er mwyn i ddemocratiaeth weithio. Ond mae arfau niwclear yn wahanol. Mae canlyniadau rhyfel niwclear uwchlaw dadleuon gwleidyddol. Yn CND Cymru, dylem fod yn barod ac yn eiddgar i siarad â phob copa walltog am y materion hyn – gan y byddem oll, beth bynnag y bo'n lliw gwleidyddol, yn marw mewn rhyfel niwclear.

Mae gan lawer, efallai'r mwyafrif, o ACau safbwynt pendant ar arfau niwclear a Trident, ac efallai na ellir newid meddwl rhai. Ond peidiwch â bod mor siwr. Cefais air wythnos diwetha ag AC sy'n dal i gredu bod 'braw-atalydd' niwclear wedi bod yn angenrheidiol yn erbyn Rwsia yn y gorffennol – ond sy'n gwrthwynebu dod ag arfau niwclear i Gymru.

**Felly, da chi, siaradwch â'ch AC ynglyn â datganiad Cymru Ddi-niwclear newydd.**

## HEDDWEITHREDU

Etholir Aelodau Cynulliad (ACau) i gynrychioli pobl Cymru ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol. Cynrychiolir pob person gan 5 AC, un ar gyfer eu hetholaeth (yr ardal lle maen nhw'n byw) a phedwar arall ar gyfer y rhanbarth.
Er mwyn cysylltu â nhw, sgrifennwch at: Eich AC, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA e: http://tinyurl.com/bs2t3v5 (i ddod o hyd i'w cyfeiriadau ebost ar lein).
Am help a/neu wybodaeth gan John Cox gweler manylion cyswllt tud. 2.

## Atal Olynydd i Trident- Beth fedrwch chi ei wneud!

## HEDDWEITHREDU

**Dim ond pedair blynedd werthfawr sydd gennym i atal olynydd i Trident:**

* Codwch eich llais a hoelio sylw ar y rheini fydd yn penderfynu.
* Dylai gwarth a ffieidd-dra Trident a'i olynydd fod yn destun siarad ar bob cyfle.
* Pryd bynnag y cyhoeddir rhagor o doriadau cyhoeddus – pryd bynnag y bydd ysbyty, llyfrgell, canolfan ddydd neu wasanaeth cyhoeddus arall dan fygythiad - atgoffwch bawb bod y llywodraeth yn gwario mwy na £1 biliwn y flwyddyn ar Trident ac yn bwriadu gwario £100 biliwn ar arfau niwclear newydd.
* Ymwelwch â/sgrifennwch at eich AS a'ch ACau. (Os gallwch, anfonwch gopïau o unrhyw atebion at CND Cymru.)
* Sgrifennwch at bapurau newydd lleol a chenedlaethol.
* Cysylltwch ag CND Cymru am daflenni, sticeri a mwy o wybodaeth. Gallwn ddarparu siaradwyr ar gyfer grwpiau a chyfarfodydd ledled Cymru.
* Gwyliwch y gofod yma! Mynnwch y wybodaeth ddiweddaraf!

**Help llaw gyda'r dadleuon:**

* Mae arfau niwclear yn anfoesol.
* Mae arfau niwclear yn niweidio'r amgylchedd ac yn gyfrifol am afiechyd a phroblemau genetig ar hyd y broses o'u cynhyrchu, eu lleoli a'u defnyddio.
* Cost adeiladu a chynnal y fath system. Mae angen difrifol am yr adnoddau hyn i gynnal a datblygu gwasanaethau cyhoeddus.
*Yng Ngynhadledd Adolygu'r Cytundeb Atal Ymlediad yn 2000, ymrwymodd Prydain a phedair gwladwriaeth arfau niwclear arall i ddileu eu harfogaeth niwclear yn llwyr gan arwain at ddiarfogi niwclear, o dan Erthygl VI o'r CAY. Mae ceisio arfau niwclear eraill i gymryd lle Trident yn tramgwyddo'r ymrwymiad hwn.
*Byddai olynydd i Trident yn arwydd clir i wladwriaethau heb arfau niwclear mai ystryw wleidyddol yn unig yw ymrwymiadau'r gwladwriaethau arfau niwclear i'r Cytundeb Atal Ymlediad.
*Gellir cymwyso dadleuon o blaid meddu arfau niwclear i unryw wladwriaeth, gan arwain yn rhesymegol at y casgliad, os ydyn nhw'n syniad mor wych, y dylai pob gwlad eu meddu – casgliad y mae llu o wladwriaethau eisoes yn dod iddo.

**Cynnig Boreol EDM 96 - TRIDENT REPLACEMENT.**

Gofynnwch i'r AS i arwyddo EDM 96. Os yw eisoes wedi arwyddo, pam na sgrifennwch chi i ddiolch iddo/iddi – yna fe fyddan nhw'n gwybod eich bod chi'n gwylio!
www.act.cnduk.org/lobby/63 (ar-lein) neu www.theyworkforyou.com/ neu:
Eich AS, Tw'r Cyffredin, Westminster, Llundain SW1A 0AA.

# Dileu Trident a'i Olynydd: Gwybodaeth am y Cefndir



**Pedair llong danfor dosbarth Vanguard yn cludo taflegrau balistig a all saethu nifer o ergydion thermoniwclear yw'r system Trident bresennol. Mae'n costio mwy na £1 biliwn y flwyddyn i'r trethdalwr – ac mae hynny'n cynyddu.**

**Llongau Tanfor Niwclear**
Adeiladwyd y 4 llong danfor Vanguard a leolir yng nghanolfan y llynges yn Faslane i bara am 25 mlynedd.

**Taflegrau Niwclear**
Mae o leiaf un llong danfor, wedi ei harfogi ag uchafswm o 8 taflegryn niwclear a 40 ergyd, ar batrôl 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

**Ergydion Niwclear**
Mae nifer y stoc o ergydion niwclear, sy'n cael eu cydosod a'u cynnal a'u cadw yn Sefydliadau Arfau Atomig (SAA) Aldermaston a Burghfield, eu cludo ar hyd y ffyrdd, a'u storio yn Coulport yn yr Alban, yn cael ei ostwng o 225 i 160, a'r stoc ergydion gweithredol o 180 i 120. Mae gan bob un o'r ergydion hyn bwer ffrwydrol o hyd at 100 kiloton o ffrwydron confensiynol, sef 8 gwaith pwer bom atomig yr UD a laddodd fwy na 150,000 o bobl yn Hiroshima ym 1945.

**Penderfybniad Terfynol**
Pleidleisiodd Ty'r Cyffredin o blaid sicrhau system arall yn lle Trident trwy fwyafrif o 248 yn 2007.
Penderfynir yn terfynol p'run ai i fwrw ymlaen ag olynydd iddo ai peidio yn 2016.

**Cynlluniau ar gyfer Olynydd**
Mae'r cynllunio ar gyfer system arfau niwclear newydd ar longau tanfor wedi cychwyn. Caiff y llongau tanfor Vanguard eu disodli pan fyddant yn 30 mlwydd oed. Mae'r dewisiadau posibl yn lle Trident yn cynnwys: 3 neu 4 llong danfor Trident newydd yn lle'r hen rai, addasu llongau tanfor Astute i gario taflegrau niwclear, dod â'r system patrôl parhaol i ben, neu ymestyn oes y llynges bresennol.

**Cost**
Amcangyfrif swyddogol yn 2006 o gost 'olynydd': £25 biliwn (Pwyllgor Amddiffyn Ty'r Cyffredin)
Amcangyfrif Greenpeace yn 2009 o gostau oes 30-mlynedd: rhyw £100 biliwn (yn cynnwys costau cysylltiedig ac eithrio'r Sefydliad Arfau Atomig)
£900m: wedi ei wario eisoes rhwng 2007 a 2011 ar y cyfnod 'cysyniad'
£3bn: clustnodwyd ar gyfer y cyfnod 'asesiad', 2011-2016. Mae'r rhan fwyaf o hyn ar gyfer dylunio llongau tanfor Trident newydd. Ym mis Mai 2012, cyhoeddodd y llywodraeth bod £350 miliwn o hyn yn cael ei wario. Dilynwyd hynny gan £350 miliwn pellach ym mis Hydref 2012.

**Yn ychwanegol:**
£1bn: yn cael ei wario yn SAA Aldermaston bob blwyddyn am y 5 mlynedd nesaf.
£1.1bn: ar adeiladu cyfleuster newydd ar gyfer creiddiau adweithyddion yn Rolls Royce Derby ac ar gynhyrchu dau graidd tanwydd.

**Annibynnol?**
Cynhyrchir nifer o rannau allweddol ergydion Trident yn UDA.

Goruchwylir data targedu a rheolaeth tanio gan y Ganolfan Weithredu a Rheoli Niwclear yn Llundain sy'n dibynnu ar feddalwedd cyfrifiadur Americanaidd. Cynhyrchwyd stoc Prydain o sawl tunnell fetrig o blwtoniwm gradd-arfau mewn adweithyddion prosesu niwclear ym Mhrydain, fel Sellafield yn Cumbria. Caiff wraniwm tra chyfoethedig ei gyflenwi ar sail barhaus gan yr Unol Daleithau.
Caiff y taflegrau Trident eu prydlesu oddi wrth UDA.

**Cyfreithlondeb**
Ym 1996, cyhoeddodd y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol farn gynghorol y byddai bygwth neu ddefnyddio arfau niwclear, yn y rhan fwyaf o achosion, yn tramgwyddo gwahanol erthyglau yn y gyfraith ryngwladol, yn cynnwys Cytundebau Genefa, Cytundebau'r Hâg, Siarter y CU a'r Datganiad Hawliau Dynol Hollgyffredinol.
Yn 2005 cyhoeddodd Rabinder Singh QC a'r Athro Christine Chinkin farn gyfreithiol a ddadleuai: 'y byddai defnyddio'r system Trident yn torri'r gyfraith ryngwladol arferol, yn enwedig am y byddai'n groes i'r egwyddor fod yn rhaid gwahaniaethu rhwng ymladdwyr ac anymladdwyr.' A bod 'sicrhau olynydd i Trident yn debyg o fod yn tramgwyddo Erthygl VI o'r Cytundeb Atal Ymlediad Niwclear.'

**Yr Alban**
Os ceir pleidlais Iwyddiannus o blaid annibyniaeth i'r Alban yn 2014, mae'r SNP yn gytûn na fyddai llywodraeth Albanaidd yn y dyfodol yn fodlon lletya Trident mwyach.

**Does yna unman arall ym Mhrydain lle gallai Trident fynd.**

# Gweithredwch yn SAA Aldermaston

**Yn 2016 bydd y llywodraeth yn penderfynu'n derfynol i adeiladu system arfau niwclear newydd yn lle Trident.**

Gyda'n gilydd, gallwn eu hatal. Rhwng nawr a'r etholiad nesaf (2015, mae'n debyg) byddwn yn ennyn ymgyrch gyhoeddus o weithredu torfol yn erbyn olynydd i Trident, ac rydym am i chi gymryd rhan. Mae cael olynydd i Trident yn gwbl ddianghenraid, yn ddrud, yn tanseilio'n diogelwch yn beryglus, ac yn torri'r gyfraith ryngwladol.

Mae gennym bitw ddwy flynedd i atal olynydd i Trident.

Mae arfau niwclear ynghlwm wrth yr holl brif broblemau economaidd, iechyd, dyngarol, moesol a gwleidyddol sy'n ein hwynebu heddiw, yn cynnwys newid hinsawdd, militariaeth, tlodi ac anniogelwch. Mae'r mudiad byd-eang o blaid cytundeb i wahardd arfau niwclear yn cyflymu.

Mae'n bryd i bob un ohonom chwarae rhan a chymryd camau DAA yn erbyn cenhedlaeth newydd o arfau niwclear Prydeinig.

Dangosodd y gwrthdystiad y tu allan i'r Senedd ar yr 16eg o Hydref fod llawer o bobl Cymru yn benderfynol na chaiff Trident groeso yng Nghymru nag unman arall. Estynir gwahoddiad yn awr i grwpiau o Gymru ddewis dyddiad y flwyddyn nesaf i ymuno â Gweithred DAA a dechrau cynllunio digwyddiad. Mae'r llong danfor a'r dreigiau coch yn edrych mlaen at drip arall!

Am fwy o wybodaeth am WEITHRED DAA, a sut i gyfranogi, ymwelwch â'n gwefan: www.ActionAWE.org t: 08454 588 362 info@actionawe.org

Dylai'r rheini sy'n fodlon helpu i gynllunio gweithredoedd Cymru yn Burghfield ac Aldermaston gysylltu ag Angie ar y rhif uchod.

# Tridiau dros Heddwch yn Wrecsam

**Cydweithiodd gweithredwyr lleol, cerddorion, beirdd, artistiaid, cogyddion, therapyddion cyfannol, ffotograffwyr a gwneuthurwyr ffilmiau ynghyd ag athrawon, credinwyr ac anghredinwyr, swyddogion cyngor ac eraill i ddod â phynciau heddwch, datrys gwrthdaro a gwrthsafiad di-drais i mewn i'r arena gyhoeddus yn Wrecsam am dridiau ym mis Medi, yn cynnwys diwrnod gyda mwy na 300 o blant o ddeg ysgol leol.**



Tyfodd Dyddiau Heddwch yn Wrecsam yn gyson, o ambell bicnic grwp heddwch, yn ymdrechion cydweithredol, mwy o faint yn y blynyddoedd diwethaf, wedi eu trefnu am y nesaf peth i ddim gan rwydwaith llac, anhierarchaidd ar sail egwyddorion economi roddion. Gobeithio y byddwn nôl y flwyddyn nesa, ac anogwn eraill i drefnu digwyddiadau tebyg a chynnwys ysgolion yn bendant.

**Dydd Heddwch y Byd yn Wrecsam**

Heb ddymuno bod yn gysylltiedig â Heddwch Rhyw Ddydd ( a noddir gan Coca-Cola) a Dydd Heddwch Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig (a oedd yn gyfrifol am sancsiynau hil-laddol yn Irac, ymhlith erchyllterau eraill), galwasom ein digwyddiadau eleni yn "Ddyddiau Heddwch Byd-eang" digyswllt. Gwahoddwyd pob ysgol yn Wrecsam i ddydd yr ysgolion a dosbarthwyd gwybodaeth am y dyddiau heddwch eraill mor eang ag yr oedd egni ac adnoddau yn caniatáu. Roedd ein Dyddiau Heddwch yn agored i bawb ac yn rhad ac am ddim, o'r stondin Rhoi a Derbyn i'r gerddoriaeth, gweithgareddau, bwyd, smwddis pwer-beic, therapïau cyfannol, taflenni hysbysrwydd, gweithdai a phopeth arall. Roedd mynediad i gigs gyda'r nos am ddim hefyd.

**Heddwch yn yr ysgol**

Cynhaliwyd dydd yr ysgolion yn ysgol Sant Christopher, ysgol gymuned eithriadol, gyda gwasanaeth i gychwyn dan arweiniad caplan yr ysgol a sesiynau grwp bychain wedyn gydag arweinwyr gweithdy o barthau mor bell i ffwrdd â de Lloegr a'r Alban. Roedd sesiynau'n cynnwys dysgu am *seva* yn y grefydd Sikhaidd mewn sesiwn goginio; barddoniaeth; datrys gwrthdaro; plant ym Mhalesteina ac Irac; sut yr aeth milwr SAS yn Gyn-filwr dros Heddwch; militareiddio bechgyn; a gweithio dros ddiarfogi niwclear yng Ngwersyll Heddwch Faslane. Arhosodd plant eraill yn y neuadd i ganu, ymlacio gyda therapi cyfannol, cael peintio eu dwylo neu wynebau, addurno siapiau-llaw â syniadau a delweddau heddwch ar gyfer yr arddangosiad 'Dwylo i Fyny dros Heddwch', gwneud craeniau origami a gweithgareddau crefft eraill a barhaodd trwy'r picnic heddwch awr-ginio. Daeth plant â hen deganau a gemau ar gyfer y stondin Rhoi a Derbyn a'u cyfnewid am bethau eraill; roedd yna stondinau gwybodaeth ac un yn casglu negeseuon o gefnogaeth ar golomennod heddwch at deulu sy'n gwrthwynebu dinistr amgylcheddol yn y Philippines ac y lladdwyd eu plentyn.

Yn sesiwn y prynhawn, daeth y plant ynghyd i rannu'r hyn a ddysgwyd ganddynt. Ar un pwynt, safodd llinell o blant yn dal sitenni mawr o bapur llwyd roedden nhw wedi eu haddurno â negeseuon heddwch ar gyfer plant sy'n byw y tu ôl i wahanfur Israel. Roedd pob siten yn cynrychioli un o baneli'r wal, a phob plentyn yn cynrychioli plentyn Palesteinaidd wedi ei garcharu gan y wal. Daeth y dydd i ben gyda chydganu cân syml, *Bella Mama*. Cafodd pob plentyn gerdyn syml yn ei wahodd i ystyried y posibilrwydd o wrthwynebiad heddychlon, di-drais fel ymateb i drais.

Cawn weld beth fydd effaith y diwrnod yn y tymor hwy, ond hyd y gwyddom, dyma'r tro cyntaf i ddigwyddiad ar raddfa mor fawr am heddwch a gweithredu lleol gael ei drefnu trwy ysgolion yn Wrecsam, a gobeithiwn adeiladu ar ei sail. Rydym yn gwneud gwaith dilynnol gydag ysgolion a'r cyngor, ac mae sôn am gynnwys pob ysgol yn Wrecsam yn Nydd Heddwch 2013.

**Mwy o adroddiadau**

http://indymedia.org.uk/en/2012/10/500783.html

http://indymedia.org.uk/en/2012/09/500483.html

e: peacedaywrexham@yahoo.co.uk







## Adar Angau

**Ar y 9fed o Hydref, cyflwynodd Cymdeithas y Cymod ddeiseb wedi ei harwyddo gan fwy na 1,500 o bobl yn galw am atal profion awyrennau di-beilot yn Aberporth.**

Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn cario enwau ac oedrannau plant a laddwyd mewn cyrchoedd awyrennau di-beilot. Derbyniodd yr Aelodau Cynulliad Simon Thomas a Bill Powell y ddeiseb. Mae'r profion yn parhau dros 500 milltir sgwâr o Gymru.

Mae mwy o wybodaeth ar gael mewn papur cefndir dwyieithog, 'Adar Angau dros Aberporth', cysylltwch ag CND Cymru am fwy o fanylion.

## Hwlffordd

**Cofiwyd Dydd Hiroshima yn Hwlffordd gan Grwp Heddwch Sir Benfro gyda stondin, baneri ac arddangosfa am Hiroshima a Nagasaki ar brif bont afon Cleddau.**

Liw nos, hwyliwyd cychod papur yn cario canhwyllhau yn olau ar yr afon.

Grwp Heddwch Sir Benfro: malcolm.gregson@littlewedlockgallery.co.uk t: 01834 845868

Unwaith eto, planodd CND Llandrindod goeden yn y dref fel y maent wedi gwneud bob blwyddyn ers y 1980au cynnar.

## Coffa a Heddwch yng Nghonwy

**Mae Grwp Heddwch Sir Conwy wedi ailymuno ag CND Cymru yn ddiweddar.**

Mae'r grwp bychan ond gweithgar hwn yn cwrdd ar ddydd Mawrth cynta'r mis yn Neuadd Eglwys Fethodistaidd Sant Ioan yn Stryd Mostyn, Llandudno ac yn cynnal dau neu dri digwyddiad cyhoeddus y flwyddyn. Bwriedir cynnal arddangosfa yn y gwanwyn ar thema awyrennau di-beilot a/neu y Fasnach Arfau. Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r grwp wedi trefnu cyfarfodydd cyhoeddus yn cynnwys 'The Wales Drones Threat' a anerchwyd gan Gadeirydd CND Prydeinig, Dave Webb, a Tara Smith o Brifysgol Bangor, a siaradodd am oblygiadau cyfreithiol rhyngwladol defnyddio awyrennau di-beilot mewn gwrthdaro arfog. Ar benwythnos Sul y Coffa eleni, bu Cadeirydd CND Cymru, Stephen Thomas yn annerch cyfarfod cyhoeddus y gwahoddwyd aelodau o CND iddo, ar thema 'Coffa a Heddwch'. Roed tri phen i'w anerchiad: Dydd y Coffa, tarddiad y pabi coch a'r pabi gwyn, a chysylltiad cynyddol y pabi coch ag 'anocheledd' rhyfel; olynydd i Trident; Academi Heddwch i Gymru. Cafodd ei anerchiad dderbyniad da, gan ennyn trafodaeth a dadl fywiog. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar y 4ydd o Ragfyr am 7.30 yn y lleoliad uchod. Croeso i bawb. Am fanylion pellach, anfonwch ebost at conwypeace@gmail.com

## Y Llyfr Gwyn

Ym mis Tachwedd, cynhaliodd Crynwyr Pen-y-bont ddigwyddiad arbennig yn eu ty cwrdd yn Heol y Parc. Roedd y siaradwyr yn cynnwys y Maer, y Cynghorydd Marlene Thomas, Dr Mererid Hopwood, y bardd a chadeirydd cangen Caerfyrddin o Gymdeithas y Cymod, a Jill Evans ASE.

Canolbwynt y digwyddiad oedd arwyddo Llyfr Gwyn Caerfyrddin gan bawb a oedd yn bresennol. Mae gan y gyfrol hardd hon a luniwyd â llaw, ar batrwm y gyfrol 750-mlwydd-oed, Llyfr Du Caerfyrddin, ddalennau gwag a fydd yn llenwi dros amser â llofnodion pobl o bob cefndir a fydd yn ymrwymo i weithio dros heddwch yn y byd. Cyflwynodd Mererid Hopwood y Llyfr Gwyn ac amlinellu ei amcanion a'i ystyr. Soniodd y Maer am heddwch a chydraddoldeb ym Mhen-y-bont, tra disgrifiodd Jill Evans ymdrechion i adeiladu heddwch o fewn Senedd Ewrop. Ochr yn ochr â digwyddiad y Llyfr Gwyn, gallodd CND Pen-y-bont ddangos arddangosfa CND Cymru am Ymgyrch Byncer Pen-y-bont a ddigwyddodd 30 mlynedd yn ôl. Roedd Steve Samuel, cadeirydd CND Morgannwg Ganol ar y pryd a gafodd goncrid wedi ei dywallt drosto wrth iddo weithred'n uniongyrchol i atal y byncer niwclear rhag cael ei adeiladu, yn bresennol.

**HEDDWEITHREDU**

Gobeithir dangos yr arddangosfa mewn man canolog ym Mhen-y-bont yn nes ymlaen. Os gwyddoch am ganolfan a fyddai am roi cartref iddi, da chi, dewch i gysylltiad.

CND Pen-y-bont, cysylltwch â Pete Thompson t: 01656 648 817 e: petethommo@gn.apc.org



## Meddiannnu Di-niwclear

**Yn y Steddfod eleni ym Mro Morgannwg, coffawyd Dydd Hiroshima mewn cyfarfod a anerchwyd gan Guto ap Gwynfor ym Mhabell Cytûn, gyda siaradwyr a chaneuon wedyn yn y Babell Heddwch, ac ymweliad â chromen y llywodraeth.**

Yma, aeth pawb ati i 'feddiannu' yn ddi-drais a di-fyfyr. Galwai negeseuon CND Cymru, Cymdeithas y Cymod, Cymdeithas yr Iaith a PAWB am Gymru Ddi-niwclear, Na i Atomfa Wylfa ac 'Arfau Niwclear – Ddim yng Nghymru, Ddim yn Unman'. Bu digwyddiadau eraill ar hyd yr wythnos a dangoswyd arddangosfa 'Ymgyrch Byncer Pen-y-bont 1982'.

## Pabïau Gwyn ledled Cymru

**Cynhaliwyd digwyddiadau Coffa Pabi Gwyn ledled Cymru ym mis Tachwedd.**

Yn Arberth, trefnodd Grwp Heddwch Sir Benfro i osod torch ar Groes Iechfaen hardd y Landsger. Darllenwyd cerdd Waldo Williams, y bardd, heddychwr a gwrthwynebydd cydwybodol, am ei rieni, 'Y Tangnefeddwyr' yn Gymraeg a Saesneg.

Yng Nghasnewydd, Gwent, mewn ymgais i ganolbwyntio sylw ar atal rhyfel a gwrthdaro, gosodwyd torch o babïau gwyn ger y Senotaff fel rhan o'r seremoni goffa swyddogol.

Gosododd Cyngor Tref Aberystwyth dorch o babïau gwyn wrth y gofeb ryfel ger y castell. Arweiniwyd y seremoni gan Rhydian Griffiths a chanodd Côr Gobaith.

Galwyd ar y rheini a oedd yn bresennol i ganolbwyntio ar ddatrys anghydfod, dialog a defnyddio dulliau heddychlon, fel y mae'r Pabi Gwyn Heddwch yn ei symboleiddio.

Gosododd Côr Gobaith dorch o babïau gwyn hefyd ar ôl seremoni'r Lleng Brydeinig.

**Am fwy o wybodaeth am y pabi heddwch:** www.ppu.org.uk



## 50 mlynedd yn ôl: Argyfwng Cuba ac Abertawe

**'Abertawe: aeth rhyw 50 o ferched o Ysgol Ramadeg Glanmor ar streic.**
Yng nghanol y dref, bu Irving Fuchs ac Arthur Katts wrthi'n ymprydio am bedwar diwrnod. Gwrthdystiodd rhwng 500 a 1,000 o bobl i'w cefnogi, ac anfon protestiadau at Lysgenadaethau Rwsia a'r UD a'r Swyddfa Dramor. Dyma un o'r gwrthdystiadau mwyaf a welodd Abertawe erioed . . .'
**O *Peace News*:** http://tinyurl.com/advjbeb

## Cymru'n cefnogi Gasa

**Cynhaliwyd gwylnosau yn Aberystwyth, Wrecsam, Trefyclo, Casnewydd ac Abertawe mewn ymateb chwim i gyrchoedd milwrol Israel ar Gasa ym mis Tachwedd.**
Yng Nghaerdydd, cynhaliodd Ymgyrch Stop the War, gyda chefnogaeth CND Cymru, wylnos ger cerflun Aneurin Bevan gan alw am derfyn ar ladd ac anafu sifiliaid diniwed yn Gasa. Mae ysbyty'r plant yn Gasa, a adeiladwyd gyda chymorth arian a gasglwyd gan Gôr Cochion Caerdydd, yn fyr o blasma, moddion a rhwymynnau ar gyfer y llu cyson o bobl glwyfedig a ddygir yno ar ôl cyrchoedd milwrol Israel. Anfonwyd £500 a gasglwyd yn y fan a'r lle yn uniongyrchol at yr ysbyty yn Gasa, lle bydd yn talu am gyffuriau ac offer meddygol a fydd yn achub bywydau plant Palesteinaidd.

Does gan Gasa ddim tanciau, awyrennau, hofrenyddion arfog na thaflegrau saethu awyrennau i'w hamddiffyn ei hun, sy'n rhoi tragwyddol heol i Israel, pedwerydd p?er milwrol y byd, i fomio. Mae Israel yn wladwriaeth arfau-niwclear. Mae Cytundebau Genefa yn diffinio cosbi poblogaethau sifil yn dorfol fel trosedd ryfel.







## Yr Eiddew a'r Gelynnen – a helynt a chynnen

**Cynhelir arddangosfa a ddylai fod o ddiddordeb i'r rhan fwyaf o'n haelodau, *Glad Tidings of Trouble and Strife*, yn Oriel Gelf Casnewydd tan Ionawr 12fed.**

Arddangosfa yw hon o gardiau Nadolig sy'n cynnwys negeseuon o brotest a dyheadau am fyd gwell, a gasglwyd gan y cyn-AS Llafur, ac Is-gadeirydd presennol CND Cymru, Llew Smith, a'i ddiweddar wraig, Pam.




Ers canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg tan heddiw, mae pobl a grwpiau wedi mynegi eu gobeithion am y dyfodol trwy gyfrwng y cerdyn Nadolig. Mae'r arddangosfa'n cyflwyno cofnod o gardiau a gynhyrchwyd i gefnogi mudiadau gwleidyddol a chymdeithasol, o bleidleisiau i fenywod ac undebaeth lafur gynnar, trwy ymgyrchoedd fel gwrth-apartheid, y glowyr, yn erbyn treth y pen ac, wrth gwrs, y mudiad heddwch.

Mae Llew wedi llunio cyfrol hefyd, â'r un teitl, *Glad Tidings of Trouble and Strife* (£14.99) o'r casgliad hwn o gardiau, ac wedi comisiynu set o ddyluniadau cerdyn Nadolig radicalaidd fel cydymaith i'r arddangosfa ar bynciau gwleidyddol cyfoes. Anogwn unrhyw un sy'n ymddiddori mewn mudiadau protest a'u hanes diweddar i ymweld â'r arddangosfa rad-ac-am-ddim hon. Efallai y bydd rhai o'r cardiau yn ennyn atgofion, gall fod y bydd rhai'n eich synnu, ac eraill yn eich ailysbrydoli!

***Jan Jones***

Manylion pellach: www.newport.gov.uk/artgallery

## Adeiladu Heddwch Rhyngwladol trwy Gwrdd â Phobl

**A fyddai gennych ddiddordeb mewn cwrdd â theithwyr o bedwar ban y byd a chynnig croeso a lletygarwch iddynt?**

Rydyn ni wedi bod yn gwneud hyn ers rhyw ddeng mlynedd ar hugain fel aelodau o Servas, gan groesawu ymwelwyr o lu o wahanol wledydd, Ffiniaid, Sieciaid ac Alasciaid, ymhlith eraill. Rydym wedi mwynhau prydau bwyd a thrafodaethau gyda nhw, a daeth rhai yn ffrindiau mynwesol i ni. Y cyswllt anffurfiol hwn sy'n galluogi teithwyr Servas i ddysgu cymaint mwy am wledydd a phobl nag y byddent wedi ei wneud trwy aros mewn llety masnachol yn unig.

Weithiau, dydy pethau ddim yn mynd cystal â'r disgwyl, ond gan mai dim ond dwy noson o lety y bydd gwesteion yn cytuno i'w gynnig ar y mwyaf, gallwch fod yn dawel eich meddwl ar yr achlysuron prin hynny gan wybod y byddant yn symud ymlaen cyn hir!

Rydym hefyd wedi cael y profiad o deithio trwy gyfrwng Servas, gan aros gyda phobl mewn gwledydd tramor sydd wedi rhoi cyfle i ni holi'r holl gwestiynau hynny na allem eu gofyn i ddieithriaid llwyr.

Sefydlwyd Servas fwy na thrigain mlynedd yn ôl fel rhan o'r mudiad heddwch byd-eang i adeiladu dealltwriaeth, goddefgarwch a heddwch rhyngwladol. Trwy'r weithred syml o gytuno i groesawu teithwyr i mewn i'ch cartref am ddwy noson, gallwch fod yn rhan o'r mudiad hwn. Mae Servas yn fudiad rhyngwladol, anllywodraethol, aml-ddiwylliannol, a redir gan wirfoddolwyr, ac sy'n gweithredu mewn mwy na chant o wledydd.

Pan gânt eu cymeradwyo, bydd manylion am y llety y gall y gwesteiwyr ei gynnig (ar gyfer faint o bobl, faint o rybudd sydd ei angen, ac yn y blaen) ac am eu diddordebau, ieithoedd, a'u teithiau yn cael eu cydosod. Mae'r wybodaeth hon ar gael wedyn i deithwyr Servas cymeradwy, sydd hefyd yn cael 'llythyr o gyflwyniad' i'w ddangos i'w lletywyr. Cyfrifoldeb y teithwyr yw cysylltu yn y lle cyntaf â phob lletywr, a'r lletywyr sy'n penderfynu a yw'r ymweliad arfaethedig yn gyfleus iddyn nhw.

Mae rhyw dri deg o westeiwyr Servas yng Nghymru ar hyn o bryd, ac rydym yn edrych am un neu ddau o rai eraill. Os oes gennych ddiddordeb mewn croesawu teithwyr neu deithio gyda Servas, neu os hoffech wybodaeth ychwanegol, gweler www.servasbritain.org ebost slader1@aol.com neu t: 020 8444 7778.

***Brian a Jan Jones***

# Gaeaf niwclear

**Ai'r Rwsiaid fyddai'n ennill, ai'r Tsineaid? Ar y 30ain o Hydref, ar ôl llawer o oedi, cyhoeddwyd prynwr ar gyfer cwmni niwclear cythryblus Horizon o'r diwedd – consortiwm o dan arweiniad y cwmni o Japan, GE Hitachi, sy'n cynnwys cwmnïau peiriannol fel SNC-Lavalin o Ganada, Babcock International a Rolls-Royce (arbenigwyr ym maes llongau tanfor niwclear yn hytrach nag ynni niwclear sifil). Dylai gwerthiant Horizon ddigwydd erbyn diwedd mis Tachwedd 2012.**

Efallai y cofiwch mai GE a Hitachi oedd yn gyfrifol am adeiladu tri o'r pedwar safle Adweithydd Dwr Berwedig cyntaf yn Fukushima , lleoliad trychineb 2011. Dylid dweud 'trychineb barhaus', oherwydd mae cannoedd o filoedd o dunelli metrig o ddwr ymbelydrol iawn a lygrwyd wrth oeri'r tanwydd dadorchuddiedig, yn dal i lenwi tanciau storio anferth ac yn gollwng i mewn i'r môr. Ar dir, cydnabyddir yn awr fod y llain gwacâd o 30 km wedi bod yn annigonol. Wedi trychineb Fukushima, mae rhaglen niwclear Japan yn cael ei dirwyn i ben o'r diwedd. Felly, rhaid i Hitachi yn awr werthu ei dechnoleg niwclear drychinebus i wledydd tramor er mwyn goroesi. Dyna ffodus ydoedd i ddod o hyd i lywodraeth heb ddim pryderon niwclear o'r fath, ym Mhrydain.

### Mwy ymbelydrol byth

ABWR (Adweithydd Dwr Berwedig Uwch) yw'r adweithydd arfaethedig ar gyfer Wylfa B ac Oldbury, sy'n fwy na'r adweithyddion ail-genhedlaeth ac arno angen rheolaeth fwy soffistigedig. Bydd y gwastraff yn llawer mwy ymbelydrol na'r etifeddiaeth bresennol. Bydd yn rhaid ei storio ar safle Wylfa am y dyfodol rhagweladwy. Ddaeth dim o'r cynlluniau trychinebus ar gyfer cloddfa danddaearol genedlaethol, ond eto fyth, mae'r llywodraeth a'r diwydiant niwclear yn bwrw mlaen yn fyrbwyll.
Yn hynod iawn, talodd Hitachi ddwywaith y pris disgwyliedig am Horizon: does bosib y byddai'r un cwmni'n gwneud hynny heb i'r llywodraeth warantu cytundeb prisio manteisiol dros ben o flaen llaw. Mae'r gweinidog ynni a'r bradwr niwclear Ed Davey yn mynnu na chafodd 'pris taro' hyd yn oed ei drafod eto, ond does dim amheuaeth bellach na ellir darparu pwer niwclear heb gymhorthdal cyhoeddus anferth (ond cudd, o ddewis), neu trwy dwyll-bennu prisiau ar draul y trethdalwr neu'r defnyddiwr. Mae'r negydu ynglyn â phris taro yn gyfrinachol, enghraifft arall o'r diffyg tryloywedd sy'n nodweddu pob agwedd o'r broses niwclear newydd. Eto fyth, bydd cwmnïau preifat yn godro'r elw, a'r cyhoedd yn dwyn y gost a'r risg. Paratowch i weld prisiau trydan yn mynd drwy'r to.

### Gwasg anfeirniadol

Unwaith eto, cafodd cytundeb Hitachi groeso anfeirniadol gan wasg a BBC sydd fel poli-parotiaid y cwmnïau PR. Yn ystod yr wythnosau diwthaf, cynyddodd y nifer o swyddi newydd fydd ar gael, gellid tybio, o 1,000 y dydd! Mae pobl dda Ynys Môn yn wylo o lawenydd ac yn dawnsio yn y strydoedd o glywed y newyddion da. Mae'r fargen wedi ei tharo!
Ond nid felly mae. Mae'r ABWR yn ddewis mor annisgwyl nes bod gofyn iddo fynd trwy 4 neu 5 mlynedd o Asesiad Dyluniad Cyffredinol cyn iddo allu cael ei gymeradwyo ar gyfer Prydain. Does dim rhaid i Hitachi, fel E.ON o'i flaen, ymrwymo i fuddsoddi am flynyddoedd i ddod. Mae blynyddoedd o oedi yn ymestyn o'n blaenau, pan allai'r cwbl fynd i'r gwellt os na fydd y cytundeb yn gweithio wrth fodd Hitachi. Ar Ynys Môn, mae hyd yn oed cefnogwyr niwclear yn fwyfwy sinigaidd ynglyn â'r argoelion. Prin iawn yw'r dawnsio yn y strydoedd. Pan ymwelodd Hitachi â'r safle am y tro cyntaf, ni fynnai'r bobl fusnes na'r gwleidyddion warantu unrhyw swyddi i bobl leol, neu hyd yn oed i bobl o wledydd Prydain. Gadawodd hynny flas cas.

### Craciau yn wyneb y PR

Ymddangosodd craciau eraill yn sglein y PR wrth i realiti ymwthio i mewn. Bu'n rhaid cau adweithydd gweithiol olaf Wylfa A unwaith eto, oherwydd problem gyda'r tanwydd. Cododd ffiasgo storio gwastraff yn Sellafield yn y newyddion eto. Ac yna, daeth mater bychan Corwynt Sandy yn sgubo ar draws glannau dwyreiniol UDA, lle roedd perygl y gallai effeithio ar 26 o adweithyddion niwclear. Caewyd dau ohonynt, a gosodwyd yr hynaf, Oyster Creek, ar wyliadwraeth.
Ar fôr tymhestlog …!

***Phil Steele a Linda Rogers***
Pobl Atal Wylfa B



## Faslane

**Ym mis Hydref, er mwyn arddangos gallu a pharodrwydd niwclear Prydain i Iran ac Ariannin (yn ôl y *Daily Mail*), taniodd y Llynges Frenhinol daflegryn niwclear Trident II anarfog yn yr Iwerydd, ger glannau Florida.**

Dyma'r tro cyntaf i'r Llynges brawf-danio taflegryn niwclear er 2009. Wrth i'r newyddion dorri, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Amddiffyn Philip Hammond £350 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer y cam nesaf yn y gwaith o ddylunio cenhedlaeth newydd bosibl o longau tanfor Prydeinig ag arfogaeth niwclear, er na phenderfynwyd eto, wrth i Trident ddod i ddiwedd ei oes, a fydd olynydd iddo. Os pleidleisia'r Alban dros annibyniaeth yn 2014, mae'n bosibl na fydd porthladd niwclear ar gael gan y llynges ar gyfer Trident neu unrhyw olynydd iddo.

**HEDDWEITHREDU**

**Daliwch i sgrifennu ar yr Ysgrifennydd Amddiffyn, Philip Hammond, ac at y papurau newydd – gwnewch yn siwr eu bod yn clywed eich barn. Gweler y cyfeiriad ar dud.12.**



## Hinkley Point

**Pe ceid damwain ar raddfa Fukushima, gallai'r adweithyddion niwclear newydd arfaethedig yn Hinkley Point fygwth de Cymru gyfan.**

Am y rheswm hwn, ymunodd Paul Relph o Gwmbran a minnau eraill o Gymru ar benwythnos o brotest yng Ngwlad yr Haf ym mis Hydref. Roedd y gweithredu'n cynnwys gorymdaith a rali, tresmasu torfol ar safle adeiladu Hinkley C, 'adennill' tir comin a phlannu blodau gwyllt. Cychwynnwyd ar y gwaith am 4am, gan ddadorchuddio hen lwybrau a gaewyd gan y Cyngor ar gais y datblygwyr. Dyma ni'n rhwystro'r ffordd wedyn, dringo'r ffens, tresmasu a meddiannu'r safle arfaethedig gan herio swyddogion diogelwch a heddlu. Clymais lun o'm teulu wrth y ffens: dyna pam roeddwn i yno, er mwyn Wendy, Tad a Carwyn, eu dyfodol nhw ac eiddo pob plentyn. Chwifiais ein Draig Goch yn falch ac arddangos poster: 'Cymru'n dweud NA i niwclear newydd'. Ceisiodd swyddogion diogelwch rwygo posteri a chofbethau oddi ar y ffens, a diflannodd fy llun.

I gloi, dyma ni'n ymgasglu mewn cylch anferth, fraich ym mraich, yng nghanol safle arfaethedig yr adweithyddion niwclear a chanu 'Fe Orchfygwn Ni' yn Saesneg yn gyntaf, i bobl Gwlad yr Haf, yr Alban, Cernyw, ac o bob rhan o Prydain, a'r rheini o Awstria a Ffrainc.

Ar gyfer y Cymry, fel ganon ni 'Mae Gen i Freuddwyd': 'Mae gen i freuddwyd y gall Cymru a'r byd fyw mewn heddwch a chytgord rhyw ddydd'.

Cafodd 6 eu restio. Roedd yn wlyb ac yn oer – ond fe ddychwelon ni i Gymru yn gwybod ein bod yn iawn a'n bod wedi llwyddo i ddweud ein dweud. Roedd yn gam arall tuag at atal gwallgofrwydd datblygu niwclear pellach. Mae'r ymgyrch yn parhau.

***Ray Davies***

## Codi'r llen

**Dim mwy o gyfrinach ynghylch cyrchoedd adar angau Prydain.**

Prin ei bod hi'n briodol neu'n gyfreithlon gwrthod datgelu gwybodaeth am yr amgylchiadau lle defnyddiwyd awyrennau di-beilot Reaper yr RAF yn y pedair blynedd diwethaf. Gyda defnydd yr arfau hyn yn debyg o gynyddu, mae angen trafodaeth gyhoeddus ddifrifol ar sail yr holl ffeithiau, ac mae angen atebion gonest i nifer gynyddol o gwestiynau:

* A ydy'r pellter daearyddol a seicolegol rhwng y gweithredydd a'r targed yn gwneud yr ymosodiadau hyn yn fwy tebygol?
* A ymosodir yn fwy mynych oherwydd defnyddio systemau di-beilot?
* A ydy cywirdeb honedig synwyryddion a chamerâu'r awyrennau di-beilot yn golygu parodrwydd i lansio cyrchoedd mwy rhyfygus (o safbwynt y perygl o anafu sifiliaid) na chynt?

**HEDDWEITHREDU**

1. Arwyddwch y ddeiseb ar-lein yn galw ar David Cameron i godi'r llen o gyfrinachedd sy'n amgylchynu cyrchoedd awyrennau di-beilot Prydeinig: http://tinyurl.com/ct8767k (lawrlwythwch gopi i'w argraffu: http://tinyurl.com/cf8nf5v)
2. Sgrifennwch at eich AS (gweler y cyfeiriad ar dud.12) i ofyn y cwestiynau a ganlyn (mwy o gwestiynau yn www.dronecampaignnetwork.wordpress.com):

* Rhowch (fras) ddyddiad pob cyrch arfog gan awyrennau di-beilot Prydeinig, y lleoliad a'r rheswm am yr ymosodiad, os gwelwch yn dda
* Sut y mae'r Awyrlu'n cadarnhau nad yw targedau ymosodiadau gan awyrennau di-beilot yn sifiliaid; pa feini prawf a ddefnyddir i bennu mai ymladdwyr yw'r targed?
* A allech chi fanylu ar y drefn, yn cynnwys cyngor cyfreithiol, o dan dargedu dynamig?

Gofynnwch iddo/iddi i anfon eich llythyr ymlaen at y Prif Weinidog. Copïau o atebion at Drone Campaign Network, d/o Peace House, 19 Paradise St, Rhydychen OX1 1LD e: info@DroneCampaignNetwork.org.uk

*Ground the Drones* – ffilm fer gan weithredwyr ar gyfer yr Wythnos Weithredu yn egluro beth yw awyrennau di-beilot a pham mae'n rhaid i ni eu hatal: http://tinyurl.com/8cctbuf

## Sellafield- allan o reolaeth

**Mae'n swyddogol: mae gwastraff peryglus a gedwir mewn hen adeiladau yng ngwaith niwclear Sellafield yn peri 'risg anoddefadwy'.**

**Mae adroddiad y Swyddfa Archwilio (NAO) yr hydref yma ynglyn â gorwario ar waith yr Awdurdod Dadgomisiynu (NDA) yn Sellafield wedi bod yn wers werthfawr yn y problemau ynglyn â chost pwer niwclear – boed sifil neu filwrol.**

**Ymhlith llu o ffaeleddau, nododd yr adroddiad:**

* fethiant perchenogion Sellafield, dros bum degawd, i gynllunio i gael gwared o wastraff niwclear. Mae rhai o'r cyfleusterau hyd wedi 'dirywio cymaint nes bod eu cynnwys yn risg sylweddol i bobl a'r amgylchedd'.
* fod yr NDA, yn ei waith ar 12 prif broject adeiladu ac offer, sy'n 'hollbwysig' o ran lleihau risg ac a gostiodd rhwng £21m a £1.3bn, wedi methu cyflawni eu nod, gan ychwanegu $0.9 biliwn at fil y trethdalwr.
* y cymer, yn ôl amcangyfrifon cyfredol, £67.5 biliwn (tua hanner dyled gyhoeddus

Prydain) i ddelio â holl rwymedigaethau Sellafield, a 100 mlynedd arall o leiaf i gwblhau'r gwaith.

Bydd anweddydd a fydd yn lleihau'r cyfeintiau o wastraff ymbelydrol hylifol lefel-uchel bellach yn costio £643 miliwn. Yr amcangyfrif gwreiddiol yn 2006 oedd £90 miliwn.

Ac eto, mae llywodraeth San Steffan yn fodlon rhoi caniatâd i greu llwythi o wastraff ymbelydrol 'llosgedd-uchel' wrth iddi gefnogi adeiladu 10 adweithydd niwclear newydd yn Lloegr a Chymru, gan alw'r cynllun yn rhan o 'ddyfodol ynni cynaliadwy'.

Sellafield sydd â'r dwysedd mwyaf o ddeunydd ymbelydrol yn unman ar y ddaear. Bydd y gwastraff lefel-uchel hwn yn ymbelydrol am fwy na 100,000 o flynyddoedd. O dan yr enw Windscale, cynhyrchodd y safle blwtoniwm ar gyfer rhaglen arfau niwclear Prydain, cyn troi'n waith masnachol gyda chyfleusterau ailbrosesu, creu tanwydd ac ati. Mae Sellafield yn gollwng mwy nag 8 miliwn litr o wastraff ymbelydrol i'r môr bob dydd. Môr Iwerddon yw'r môr mwyaf ymbelydrol yn y byd.

Cynyddodd achosion o lewcemia plentyndod yng nghylch Sellafield ddengwaith yn fwy na'r cyfartaledd Prydeinig a daethpwyd o hyd i lwch plwtoniwm yn nhai trigolion sy'n byw ar lannau Môr Iwerddon. Meddai Linda Rogers o fudiad PAWB:

*"Cawn ein sicrhau gan y llywodraeth, pan fyddant yn ceisio gwerthu'r syniad o orsafoedd pwer niwclear newydd i ni, eu bod yn hyderus y ceir ateb i'r broblem o ymdrin yn y tymor hir â'r gwastraff. Yn awr, clywn bod y naill lywodraeth ar ôl y llall wedi caniatáu i'r sefyllfa o ran cael gwared o wastraf canolradd i ddatblygu, yng ngeiriau'r Adroddiad Archwilio Cenedlaethol am Sellafield, yn "risg anoddefadwy". Ni wyr perchenogion yr orsaf faint o amser a gymer i adeiladu canolfannau storio a thrin ar gyfer y sylweddau hynod beryglus hyn na faint fydd y bil terfynol am ddadgomisiynu."*

## Ynfydrwydd Niwclear

**Yn 2011 gwariodd y naw gwlad niwclear-arfog fwy na $102 biliwn ar gynnal a chadw a moderneiddio'u harfau niwclear.**

Mae'r cynnydd hwn, o $91 biliwn yn 2010, yn bwrw amheuaeth dwys ar ddiffuantrwydd addewidion arweinwyr i weithio dros fyd heb arfau niwclear, gan awgrymu yn hytrach fwriad i gadw'r fath arfau am gyfnod amhenodol.

Mae Arlywydd newydd-ei-ethol yr UD, Barack Obama, a enillodd Wobr Heddwch Nobel yn 2009 am ei 'weledigaeth ddi-niwclear', yn cefnogi cynyddu gwariant yr UD ar arfau niwclear ac adeiladu tair ffatri fomiau niwclear newydd yn ystod y degawd nesaf.

Disgwylir i gyfanswm y gost fod yn $213 biliwn, yn ychwanegol at gyllideb arfau niwclear flynyddol o fwy na $60 biliwn.

Mae'r llywodraeth Prydain eisoes yn gwario miliynau gan ragweld 'uwchraddio' ac olynu'r system arfau niwclear Trident am gost ddisgwyliedig o £100 biliwn o leiaf os 'cytunir' ar hynny yn 2016.

Gyda thoriadau mewn addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol eraill, rhaid herio unrhyw wariant ar arfau niwclear. Mae gwastraffu adnoddau gwerthfawr ar arfau braw a dinistr torfol yn warthus yn yr amgylchiadau economaidd gorau; mae hyd yn oed yn fwy disynnwyr a chywilyddus yn wyneb gofidiau ariannol presennol y byd.

### HEDDWEITHREDU

**Gellir cysylltu pob protest yn erbyn toriadau â gwariant ar arfau niwclear. Mae gan CND Cymru sticeri, posteri a thaflenni dwyieithog yn tanlinellu ynfydrwydd gwario ar arfau niwclear, ar gael i'w defnyddio mewn gwrthdystiadau yn erbyn y toriadau ledled Cymru. Byddwch yn bresenoldeb 'Torri Trident!' yn eich digwyddiad lleol! Gweler cysylltiadau CND Cymru, tud. 2.**

## Cleddyfau'n Sychau Nawr

Ym mis Gorffennaf, aeth y gweithwyr Pabyddol Megan Rice, Michael Walli a Greg Boertje-Obed i mewn i Ganolfan 'Ddiogelwch' Genedlaethol Oak Ridge, Tennessee sy'n cynnal a chynhyrchu rhannau wraniwm ar gyfer arfau niwclear yr UD. Buont yn canu ac yn addurno'r safle storio wraniwm â gwaed, rhosynnau, baneri a phaent. Bu'r gwaith ar gau am bythefnos yn sgil eu gweithred. Pan gawsant eu restio, dywedasant eu bod yn 'gwrthod amcanion niwcleariaeth, ymerodraeth a rhyfel' gan alw am drefn economaidd nad yw'n seiliedig ar ymladd rhyfeloedd a chreu ymerodraeth, ac maent am erlyn llywodraeth y UD am ei rhaglen o foderneiddio arfau niwclear. Cafodd y tri eu gollwng ar fechnïaeth.


### HEDDWEITHREDU

**I gefnogi, gweler**
www.transformnowplowshares.wordpress.com

## Atal Gweithfeydd Niwclear Kudankulam/ Jaitapur

**Oedwyd adeiladu Gorsaf Bwer Niwclear Kudankulam yn ne India ar y cyd â chwmni Rwsiaidd, a fydd yn rhedeg ar wraniwm o UDA a Ffrainc, oherwydd protestiadau gwrth-niwclear.**

Mae mwy na miliwn o bobl yn byw o fewn 30 km i'r safle, a gynlluniwyd heb ymgynghori â'r cyhoedd. Mae'r cartrefi agosaf 500m oddi wrtho. Cafwyd protestiadau di-drais anferth ar y safle. Ym mis Medi, lladdwyd pysgotwr lleol pan daniodd yr heddlu ar brotestwyr di-drais a oedd yn atal y ffordd. Nid hon mo'r unig brotest yn erbyn gorsafoedd pwer niwclear yn India. Mae pysgotwyr a ffermwyr yn Jaitapur, Maharashtra, a ffermwyr a thrigolion Gorakhpur, Haryana, hefyd yn dweud 'Na' i orsafoedd pwer niwclear yn eu hardal.
http://tinyurl.com/csasdyh a http://tinyurl.com/cl7xbpy



### HEDDWEITHREDU

**Arwyddwch ddeiseb:**
**http://tinyurl.com/ctbahp5**
**Sgrifennwch at Brif Weinidog India, gweler:**
**http://tinyurl.com/ckurtqt**

## Yr Almaen yn ildio i NATO

**Bu llywodraeth glymblaid yr Almaen yn galw am symud arfau niwclear yr UD o'r Almaen er 2009.**

Mae bellach wedi ildio i bwysau gan NATO, gan ganiatáu i'r arfau aros am 12 mlynedd a chael eu huwchraddio. Mae'r UD yn bwriadu gwario rhyw $4 biliwn ar foderneiddio arfau a leolir yn yr Almaen. Mae'r Almaen yn bwriadu gwario rhyw E250 miliwn ar uwchraddio ei jetiau ymladd Tornado – a allai gludo bomiau niwclear yr UD.
http://tinyurl.com/b9dlwvo

## Ynys Jeju - rhan o'r freuddwyd Americanaidd

**Mae protestiadau yn erbyn adeiladu porthladd ar gyfer llongau rhyfel llynges yr UD yn Gangjeong ar Ynys Jeju, De Korea yn parhau, ynghyd â'r carthu a'r ffrwydro sy'n dinistrio dwr y ffynhonnau a'r eco-systemau cwrel meddal.**

Cafodd miloedd eu restio ac mae mwy na 500 wedi bod ger bron llys eisoes yn ystod yr ymgyrch bum-mlynedd. Mae ateb Ysgrifennydd Gwladol yr UD, Hillary Clinton, i lythyr gan Americanwr Koreaidd pryderus, Mr. Soon Cho, yn ei gwneud hi'n glir iawn sut y gwêl UDA broject y llynges yn Jeju. Iddi hi, mae'n golygu 'cryfhau diogelwch cenedlaethol America, hyrwyddo buddiannau'r Unol Daleithau, ac adfer safle America fel arweinydd y byd'.

### HEDDWEITHREDU

**Am y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ac i gynnig cefnogaeth:**
**www.savejejunow.org a www.facebook.com/groups/nonavalbase**

**13 Rhagfyr 7.30 p.m.**
**TREFYCLO** Knighton Hotel
**Cyfarfod Gweithredu Trefyclo dros Heddwch a Chyfiawnder**
Cysyllter â Michael Green:
t: 01588 640525
e: michael.green@fountainhead.org.uk

**14 Rhagfyr 7.15pm**
**CASNEWYDD** Oriel Gelf y Ddinas
***Attila the Stockbroker mewn Cyngerdd***
Y bardd, cerddor a gweithredwr profiadol yn perfformio'n fyw.
Tocynnau: £7.00 oddi wrth siop yr amgueddfa ar y llawr gwaelod yn Sgwâr John Frost a Glanyrafon. Lein fwcio: 01633 656757

**14 Rhagfyr**
**ABERHONDDU** Neuadd y Dre 10am -3pm
Grwp Heddwch a Chyfiawnder Aberhonddu
Achlysur blynyddol arwyddo cardiau Amnest. Cefnogwch, da chi!

**12 a'r 19 Rhagfyr 12 hanner dydd tan 1pm**
**SAA ALDERMASTON** Clwyd Tadley
***Gwylnosau Adfent***
Mwy o wybodaeth gan CND Cristnogol www.ccnd.gn.apc.org t: 01435 862 451

**25 Rhagfyr**
Cyfarchion y Tymor i'n holl chwiorydd a brodyr yn y mudiad heddwch – ac wrth gwrs, ewyllys da, tangnefedd a chyfiawnder i bawb, yn wyr, gwragedd a phlant.

**28 Rhagfyr**
**PEDWAR BAN Y BYD**
***Gwyl y Gwirioniaid***
Cofio dioddefwyr diniwed rhyfel, braw, trychinebau naturiol, afiechyd, creulondeb, damweiniau, camdriniaeth a gormes.

**1 Ionawr 2013**
Boed i 2013 fod yn flwyddyn a wêl bobl a llywodraethau yn darganfod doethineb ac yn cofleidio heddwch a chyfiawnder, a llefaru a sefyll dros hynny. Boed i leisiau'r mudiad heddwch gael eu clywed a'u presenoldeb ei deimlo.

**11 Ionawr 2013**
**LLUNDAIN**
***Mae Pob Ffordd yn Arwain at Fae Guantánamo*** **– taith ddirgelwch**
Cafwyd 11 mlynedd o arteithio, caethgludo a chaethiwo heb achos llys ym Mae Guantánamo.
I nodi 11 mlwyddiant yr anghyfiawnder hwn, bydd Ymgyrch Guantánamo Llundain yn cynnal 'taith ddirgelwch' ar draws Llundain, yn adrodd taith 11 o garcharorion ac yn ymweld â llysgenadaethau a gyfranogodd mewn ehediadau arteithio a chaethgludo anghyffredin, yn arwain at wylnos olau cannwyll y tu allan i Lysgenhadaeth yr UD am 6pm. Manylion ac i gofrestru ar gyfer y daith, cysyllter â: London Guantánamo Campaign
e: london.gtmo@gmail.com
t: 07809 757 176

**14 Ionawr, 14 Chwefror, 14 Mawrth, 11 April a'r 13 Mai 7.30 pm**
**TREFYCLO** Knighton Hotel
**Cyfarfodydd Gweithredu Trefyclo dros Heddwch a Chyfiawnder**
Cysyllter â Michael Green:
t: 01588 640525
e: michael.green@fountainhead.org.uk

**9 Chwefror 2013** 11:00am - 5:00pm
**LLUNDAIN** Ty'r Cyfeillion, 173 Euston Road
***Confronting War Today: Cynhadledd Ryngwladol***
Ddeng mlynedd wedi'r gwrthdystiad mwyaf mewn hanes ym mis Chwefror 2003, bydd y gynhadledd yn trafod ac yn cynllunio gwrthwynebiad i ryfeloedd presennol a dyfodol, gan ddadansoddi trais y Gorllewin a sut i'w wrthwynebu.
Siaradwyr: Tariq Ali, Tony Benn, Lindsey German, Jeremy Corbyn AS, awdur gwleidyddol o Irac, Saieb Khalil, Phyllis Bennis o United for Peace & Justice USA ac eraill.
Tocynnau £15 neu £8 consesiynau.
Bwcio: t 020 7561 9311
Trefnwyd gan Stop the War Coalition

**20 Chwefror 2013** 7pm
**CAERDYDD** Y Deml Heddwch
***Cynhyrchu Ynni Niwclear a Pherthynas hynny ag Arfau Niwclear*** **- Sgwrs gan Paul Flynn AS**
CCU Caerdydd

**27 Chwefror 2013 7pm**
**CAERDYDD** Y Deml Heddwch
***Rhyng-genedlaetholdeb yn Llenyddiaeth Cymru*** **– Sgwrs gan Dr. Malcolm Ballin**
CCU Caerdydd

**8 Mawrth 2013**
**PEDWAR BAN Y BYD**
***Dydd Rhyngwladol Menywod***
www.internationalwomensday.com/default.asp

**9 Mawrth 2013**
**LLUNDAIN** Conway Hall, Holborn
***Cyfarfod Prydeinig YDFA***
Rhowch y dyddiad yn eich dyddiadur nawr, diwrnod pwysig o ddysgu, rhwydweithio a chynllunio ar gyfer gweithredu i atal y ffair arfau yn 2013. Ymgyrch i Ddileu'r Fasnach Arfau t: 020 7281 0297

**23 Mawrth 2013** 10.00am - 4.30pm
**ABERYSTWYTH Canolfan Morlan**
***Cynhadledd: Academi Heddwch***
Cyfle i grwpiau ac unigolion ledled Cymru i lunio gwledigaeth ar gyfer yr Academi rydym oll yn dyheu amdani mor angerddol.
Trefnwyd gan Cynefin y Werin, cysyllter â Stephen Thomas t: 02920 666 645
stephenv.thomas@btinternet.com

**6 Ebrill 2013**
**CAERDYDD** Y Deml Heddwch
CCB a chyfarfod CCU Caerdydd
***Hawliau Dynol ym Mhalesteina***
Yr Hebryngwyr Eciwmenaidd dychweledig Jane Harries a Maryse Newnham yn sôn am eu profiadau fel Hebryngwyr Eciwmenaidd ym Mhalesteina ac Israel.

**3-10 Awst 2013**
**Eisteddfod**
Os ydych yn siarad Cymraeg ac yn fodlon gwirfoddoli i gynllunio a threfnu pobl i redeg y Babell Heddwch yn Steddfod 2013 yn Sir Ddinbych, cysylltwch â Kate Rhys Masnachu CND Cymru (gweler tud. 2).

## Sheila Gifford

Mor drist oedd clywed bod Sheila, ein chwaer a'n cyd-aelod ffyddlon o CND Cymru wedi marw. Bu'n chwaer a chydymaith ers amser maith yn y gwaith dros fyd cyfiawn a di-niwclear. Roedd Sheila, menyw addfwyn, hardd a oedd yn fawr ei gofal am y byd, yno bob amser. Mae cael pobl fel Sheila yn cydsefyll gyda ni yn rhoi nerth i ni; roeddem yn disgwyl ac yn dymuno y byddai hi gyda ni am gyfnod llawer hwy. Dylem fod wedi dweud hyn wrthi o'r blaen: ar ran CND Cymru, Cynghrair Wrth-niwclear Cymru, a'r mudiad heddwch a gwrth-niwclear ehangach – diolch o galon, Sheila.

***Jill Gough***

## Crispin Aubrey




Tristwch mawr i lawer ohonom yng Nghymru oedd clywed am farwolaeth annhymig Crispin Aubrey ym mis Medi. Buom yn gweithio gyda'r dyn hyfryd a'r ymgyrchydd dygn hwn yn erbyn pwer niwclear dros y dwr yng Ngwlad yr Haf er y 1980au. Pan gwrddais ag ef yng Nghaerdydd flwyddyn neu ddwy yn ôl, dywedodd ei fod wedi gobeithio na fyddai'n gweld y dydd pan fyddai'n rhaid ymgyrchu unwaith eto i atal adweithyddion newydd rhag cael eu hadeiladu yn Hinkley – a phe baem yn ennill hon, fel y gwnaethom ym 1990, y byddai'n rhaid dal i fod ar ein gwyliadwraeth beunydd.

Daeth y newyddion am farwolaeth Crispin brin wythnos cyn y gwarchae a'r meddiant diweddar yn Hinkley. Cysegrwyd y penwythnos i Crispin – bydd ei waith ardderchog a'i angerdd yn parhau.

***Jill Gough***

**15 Rhagfyr 11.00am**
**Y Maes Caernarfon**
**Siaradwyr: Jill Evans ASE, Toni Schiavone, Eben Muse, Rhys Llwyd.**

Rali'r Cyfrif - dwi eisiau byw yn Gymraeg, wyt ti?
"Mi ragdybiaf y bydd y ffigyrau a gyhoeddir cyn hir yn sioc ac yn siom i'r rheini ohonom sy'n ystyried nad Cymru fydd Cymru heb Gymraeg" Saunders Lewis, Tynged yr Iaith 1962.
Cred y Gymdeithas na fydd dyfodol i'r Gymraeg heb gymunedau daearyddol lle mae canran uchel o siaradwyr yr iaith yn byw gyda'i gilydd. Ar Ragfyr 11eg, fe welwn ni ganlyniadau'r Cyfrifiad ac felly gyflwr y Gymraeg yn ein siroedd ledled Cymru.

## Cyfeiriadau

**HEDDWEITHREDU**

**Eich Aelod Seneddol**
Ty'r Cyffredin,
Llundain SW1A 0AA
Ar-lein: www.writetothem.com

**Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn Philip Hammond AS,**
Prif Adeilad,
Whitehall,
Llundain SW1A 2HB
e: DefenceSecretary-Group@mod.uk

**Prif Weinidog David Cameron,**
10 Downing Street,
Llundain SW1A 2AA
e: camerond@parliament.uk

**Eich Aelod/au Cynulliad**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd,
CF99 1NA
http://tinyurl.com/dx3puqs

## Papurau Cefndir

**Mae cyfres newydd o daflenni gwybodaeth dwyieithog ar gael gan CND Cymru.**

Teitlau hyd yn hyn:
1. Henry Richard AS
2. Bradley Manning
3. Adar Angau Dros Aberporth

Mae rhifau 1-3 ar gael drwy'r post. Anfonwch amlen C5 (maint A5) gyda chyfeiriad a stamp arni at CND Cymru. Am gost niferoedd mwy, cysylltwch ag CND Cymru:
t: 01239 85 11 88
e: heddwch@cndcymru.org

**Da chi, anfonwch fanylion eich digwyddiadau atom (gweler cysylltiadau tud. 2). Gweler y wybodaeth ddiweddaraf hefyd ar dudalen Facebook, trydar a gwefan CND Cymru.**